

GWEDDI'R NOS: TREFN SYML AR GYFER YR ARGYFWNG CYFREDOL

Rhodded yr Arglwydd hollalluog inni noson heddychlon,
a diwedd perffaith.

**Gogoniant i'r Tad, ac i'r Mab,
ac i'r Ysbryd Glân;
fel yr oedd yn y dechrau y mae yn awr,
ac y bydd yn wastad, yn oes oesoedd. Amen.**

Gweddi Agoriadol

Cysgoda ni, Arglwydd da, o dan adain dy drugaredd.
Cynnal a chadw'r rhai sy'n bryderus,
Bydd gyda'r rhai sy'n gofalu am y cleifion,
Côd galon y rhai sy'n isel eu hysbryd
Er mwyn inni gael ein cysuro,
Gan wybod nad all dim ein gwahanu ni
Oddi wrth dy gariad di
Yn Iesu Grist ein Harglwydd.

Myfyrdod Personol

Nefol Dad,
Diolch am bob peth da heddiw, yn enwedig . . .

Dyro ras a chryfder i'th blant yfory, yn enwedig . . .

Salm 23

- 1 Yr Arglwydd / yw fy / mugail :
ni / bydd – / eisiau / arnaf.
- 2 Gwna imi orwedd mewn / porfeydd / breision :
a thywys fi / gerllaw / dyfroedd / tawel,
- 3 Ac y mae ef / yn fy ad/fywio :
fe'm harwain ar hyd llwybrau cyf/iawnder
er / mwyn ei / enw.

- 4a Er imi gerdded trwy ddyffryn / tywyll / du :
nid / ofnaf / unrhyw / niwed,
- 4b Oherwydd yr wyt ti / gyda / mi :
a'th wialen a'th / ffon yn / fy nghy/suro.
- 5a Yr wyt yn arlwyo / bwrdd o'm / blaen :
yng / ngŵydd / fy nge/lynion;
- 5b Yr wyt yn eneinio fy / mhen ag / olew :
y / mae fy / nghwpan yn / llawn.
- 6 Yn sicr, bydd daioni a thrugaredd
yn fy nilyn bob / dydd o'm / bywyd :
a byddaf yn byw yn nhŷ'r / Arglwydd / weddill fy / nyddiau.

Y Darlleniad

Marc 4.35-41

A'r diwrnod hwnnw, gyda'r nos, dywedodd wrthynt, "Awn drosodd i'r ochr draw." A gadawsant y dyrfa, a mynd ag ef yn y cwch fel yr oedd; yr oedd cychod eraill hefyd gydag ef. Cododd timestl fawr o wynt, ac yr oedd y tonnau'n ymdaflu i'r cwch, nes ei fod erbyn hyn yn llenwi. Yr oedd ef yn starn y cwch yn cysgu ar glustog. Deffroesant ef a dweud wrtho, "Athro, a wyt ti'n hidio dim ei bod ar ben arnom?" Ac fe ddeffrôdd a cheryddu'r gwynt a dweud wrth y môr, "Bydd ddistaw! Bydd dawel!" Gostegodd y gwynt, a bu tawelwch mawr. A dywedodd wrthynt, "Pam y mae arnoch ofn? Sut yr ydych heb ffydd o hyd?" Daeth ofn dirfawr arnynt, ac meddent wrth ei gilydd, "Pwy ynteu yw hwn? Y mae hyd yn oed y gwynt a'r môr yn ufuddhau iddo."

Neu Ioan 11:17-26a

Pan gyrhaeddodd yno, cafodd Iesu fod Lasarus eisoes yn ei fedd ers pedwar diwrnod. Yr oedd Bethania yn ymyl Jerwsalem, ryw dri chilomedr oddi yno. Ac yr oedd llawer o'r Iddewon wedi dod at Martha a Mair i'w cysuro ar golli eu brawd. Pan glywodd Martha fod Iesu yn dod, aeth i'w gyfarfod; ond eisteddodd Mair yn y tŷ. Dywedodd Martha wrth Iesu, "Pe buasit ti yma, syr, ni buasai fy mrawd wedi marw. A hyd yn oed yn awr, mi wn y rhydd Duw i ti beth bynnag a ofynni ganddo." Dywedodd Iesu wrthi, "Fe atgyfoda dy frawd." "Mi wn," meddai Martha wrtho, "y bydd yn atgyfodi yn yr atgyfodiad ar y dydd olaf." Dywedodd Iesu wrthi, "Myfi yw'r atgyfodiad a'r bywyd. Pwy bynnag sy'n credu ynof fi, er iddo farw, fe fydd byw; a phob un sy'n byw ac yn credu ynof fi, ni bydd marw byth.

Cantigl o'r Efengyl: Nunc Dimittis

- 1 Yn awr yr wyt yn gollwng dy was yn / rhydd, O / Arglwydd:
mewn tang/nefedd yn / unol â'th / air;
- 2 Oherwydd y mae fy llygaid wedi gweld dy iachawdwriaeth
a ddarperaist yng / ngŵydd yr / holl- / bobloedd:
- 3 Goleuni i fod yn ddatguddiad / i'r Cen/hedloedd :
ac yn o/goniant i'th / bobl / Israel.

**Gogoniant i'r Tad / ac i'r / Mab :
ac / i'r- / Ysbryd / Glân;
fel yr oedd yn y dechrau, y mae yn awr
ac y / bydd yn / wastad : yn oes / oesoedd. / Amen.**

**l'th ddwylo di, O Arglwydd, y cyflwynaf fy ysbryd,
oherwydd ti a'm prynaist,
Arglwydd Dduw'r gwirionedd.**

**Cadw fi fel kannwyll dy lygad,
Cuddia fi o dan gysgod dy adenydd.**

**Y mae'r Arglwydd yma.
Y mae ei Ysbryd gyda ni.**

**Ein Tad, yr hwn wyt yn y nefoedd,
sancteiddier dy enw;
deled dy deyrnas;
gwneler dy ewyllys;
megis yn y nef, felly ar y ddaear hefyd.
Dyro i ni heddiw ein bara beunyddiol.
A maddau i ni ein dyledion,
fel y maddeuwn ninnau i'n dyledwyr.
Ac nac arwain ni i brofedigaeth;
eithr gwared ni rhag drwg.
Oherwydd eiddot ti yw'r deyrnas,
a'r gallu a'r gogoniant,
yn oes oesoedd. Amen.**

Ymwêl â'r tŷ hwn, gweddiwn, O Arglwydd,
gyr ymaith ymhell ohono holl faglau'r gelyn;
arhosed dy angylion sanctaidd gyda ni
i'n gwarchod mewn tangnefedd,
a bydded dy fendith bob amser arnom;
trwy Iesu Grist ein Harglwydd. **Amen.**

Aros gyda ni, Arglwydd Iesu,
oherwydd y mae hi'n nosi, a'r dydd yn dirwyn i ben.
Fel y bydd gwylwyr y nos yn disgwyl am y bore,
felly y disgwylwn ninnau amdanat ti, Arglwydd.
Ar doriad y wawr
amlyga dy hun inni ar doriad y bara. **Amen.**

**Gwared ni, Arglwydd, pan fyddom yn effro,
gwylia drosom pan fyddom yn cysgu;
fel, pan fyddom yn effro, y cawn wyllo gyda Christ,
a phan fyddom ynghwsg,
y cawn orffwys mewn tangnefedd. Amen.**